Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Llwyncrwn

Llwyn-crwn Road
Beddau
Pontypridd
RhCT
CF38 2BE

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llwyncrwn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llwyncrwn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 304 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 231 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 44 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 22.9%) | 26.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 11.1%) | 12.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | *0.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/06/2027 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/03/2025 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Llwyncrwn yn ysgol feithringar a chynhwysol lle mae staff a disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel. Mae'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau arbenigol yn ymateb yn dda i ddiwallu anghenion unigol a chynnwys pob un o'r disgyblion ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae arweinwyr tosturiol ac ymroddgar yn creu amgylchedd dysgu cefnogol. Mae'r ymrwymiad hwn i ofal a lles yn helpu pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd da. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion, ac maent yn meithrin perthnasoedd cadarn â phob un o'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Maent yn disgrifio'u dysgu yn frwdfrydig ac mae eu hagweddau at ddysgu yn eithriadol o dda.

Mae ymagwedd yr ysgol at gynhwysiant yn gryfder. Mae staff yn nhîm lles yr ysgol yn meithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd ac yn darparu cymorth i ddisgyblion ymgysylltu â holl brofiadau'r cwricwlwm a gynigir, gan liniaru yn erbyn effaith unrhyw rwystrau rhag dysgu. Mae disgyblion yn nosbarthiadau arbenigol yr ysgol yn elwa ar gwricwlwm sy'n gyfoethog o ran iaith ac yn integreiddio'n briodol i fywyd yr ysgol.

Mae arweinwyr a staff yn datblygu cwricwlwm pwrpasol. Mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer dysgu'r disgyblion, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ac yn trosglwyddo'r medrau hyn yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn dda. Fodd bynnag, mae llawer o athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu ac mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i ddatblygu i fod yn ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol.

Mae staff wedi creu amgylchedd dysgu difyr ac ysgogol. Mae llawer o ystafelloedd dosbarth yn darparu adnoddau defnyddiol sy'n cynorthwyo disgyblion â'u dysgu. Ni chaiff ardaloedd awyr agored eu defnyddio cystal i sicrhau bod disgyblion iau yn cael cyfleoedd i archwilio dysgu mewn amgylchedd awyr agored.

Mae'r ysgol yn cynnal ystod o weithgareddau monitro, ond nid yw arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigon gofalus ar effaith yr addysgu ar ddysgu yn eu gwerthusiad o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae llywodraethwyr ac arweinwyr yr ysgol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. Maent yn rheoli cyllideb yr ysgol yn effeithlon ac yn gwerthuso effaith cyllid grant yn effeithiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Mireinio prosesau monitro a gwerthuso i ganolbwyntio'n fanwl ar effaith yr addysgu ar ddysgu

A2. Darparu cyfleoedd pwrpasol i bob un o'r disgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr creadigol, chwilfrydig, ac annibynnol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Gynradd Llwyncrwn yn ysgol feithringar a chynhwysol lle mae staff a disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn gofal. Mae'r cymorth hynod effeithiol ar gyfer lles a ddarperir gan y staff yn ganolog i weledigaeth yr ysgol. Mae hyn yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd da, ar y cyfan. Mae staff a disgyblion yn ffurfio perthnasoedd gwaith effeithiol ac yn dangos parch ar y ddwy ochr. Mae disgyblion yn ymestyn y parch hwn i ymwelwyr ac i'w gilydd. Maent yn ymddwyn yn dda ac mae eu hagweddau at ddysgu yn eithriadol o dda.

Mae staff a llywodraethwyr yn creu diwylliant effeithiol o gynhwysiant. Gellir gweld ymagwedd gynhwysol yr ysgol yn glir yn ei dosbarthiadau arbenigol awdurdod lleol lle mae staff yn addasu darpariaeth i ddiwallu anghenion unigol disgyblion yn agos. Caiff disgyblion yn y dosbarthiadau arbenigol eu cynnwys yn llawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae pob un o'r disgyblion yn teimlo'n hapus ac wedi ymlacio yn eu hamgylchedd gwaith.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu cymorth priodol sy'n galluogi disgyblion i elwa ar weithgareddau cynlluniedig yn llwyddiannus. Maent yn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn defnyddio strategaethau holi effeithiol i symud y dysgu ymlaen. Mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth pwrpasol ac yn dangos gwydnwch wrth fynd i'r afael â thasgau. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn tueddu i or-gyfarwyddo dysgu, sy'n gallu cyfyngu ar allu disgyblion i wneud dewisiadau

annibynnol. Yn ychwanegol, mae adegau pan roddir amser annigonol i ddisgyblion fyfyrio ar adborth, ac ymateb iddo, gan leihau cyfleoedd iddynt wella'u gwaith ymhellach.

Mae'r ysgol wedi datblygu cwricwlwm sy'n briodol o eang sy'n galluogi disgyblion i ddyfnhau eu dysgu ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad (MDPh). Mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o hanes a diwylliant eu hardal leol ac o Gymru. Trwy gydol eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Llwyncrwn, mae disgyblion yn dysgu am natur amrywiol cymdeithas ac yn dod yn foesegol ymwybodol trwy wersi, amser cylch a gwasanaethau sy'n ysgogi'r meddwl. Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth foesol, gymdeithasol a diwylliannol. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu dealltwriaeth ysbrydol disgyblion yn llai datblygedig.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn adeiladu ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth flaenorol disgyblion yn systematig. Mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau digidol, llythrennedd a rhifedd. Erbyn yr adeg y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadael yr ysgol, maent yn datblygu eu medrau trawsgwricwlaidd yn effeithiol ac yn cymhwyso'r medrau hyn mewn cyd-destunau ystyrlon ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn modelu Cymraeg llafar trwy gydol y dydd ac yn cynllunio datblygiad y Gymraeg yn effeithiol, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau Cymraeg.

Mae staff wedi creu amgylchedd dysgu dan do ysgogol a difyr. Maent yn darparu adnoddau defnyddiol i gynorthwyo dysgu'r disgyblion, ac mae arddangosfeydd yn dathlu eu gwaith yn briodol. Yn y dosbarthiadau hŷn, mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd i ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut. Fodd bynnag, nid yw disgyblion iau yn datblygu'n ddigonol fel dysgwyr annibynnol. Mae athrawon yn colli cyfleoedd i feithrin chwilfrydedd a chreadigrwydd naturiol disgyblion iau a'u galluogi i archwilio dysgu drostynt eu hunain dan do ac yn yr awyr agored, fel ei gilydd.

Mae llywodraethwyr yn gweithio'n rhagweithiol ochr yn ochr â staff yn ystod gweithgareddau hunanwerthuso. Mae ganddynt ystod eang o arbenigedd proffesiynol sy'n eu galluogi i gyfrannu'n gadarnhaol at fywyd yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn dda a darperir adnoddau priodol yn yr ysgol. Defnyddir cyllid grant yn effeithiol i sicrhau bod cymorth targedig a theg ar gyfer disgyblion bregus. Mae llywodraethwyr yn cydweithio ag arweinwyr i sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer diogelu.

### Ciplun : Ymagwedd ysgol fro at gefnogi teuluoedd a disgyblion

Mae tîm lles yr ysgol yn gweithio'n effeithiol i gefnogi disgyblion, teuluoedd a'r gymuned i leihau effaith her economaidd-gymdeithasol. Mae ystafell deuluol a chymunedol yr ysgol yn galluogi rhieni i gyfarfod yn rheolaidd mewn amgylchedd cysurus, diogel a chefnogol. Mae'r Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yn arwain rhaglenni dysgu i deuluoedd, gan gynnwys darparu gwybodaeth i rieni am sut i gynorthwyo'u plant â llythrennedd, a sut i ddatblygu eu medrau cyllid a chyllidebu eu hunain. Mae'r Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd yn helpu arweinwyr i fynd i'r afael ag unrhyw bresenoldeb gwael yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn gweithredu strategaethau sy'n gwella lles, dysgu a chynnydd disgyblion. Er enghraifft, mae ffocws ar ysgrifennu wedi galluogi disgyblion i gymhwyso'u medrau llythrennedd yn effeithiol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er bod arweinwyr yn cynnal ystod o weithgareddau hunanwerthuso, nid ydynt bob amser yn nodi agweddau ar addysgu a dysgu sydd angen eu gwella.

Mae pob un o'r staff yn gwerthfawrogi eu cyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae'r rhain yn aml yn cysylltu â chynllun gwella'r ysgol. Mae staff yn barod i dreialu ymagweddau newydd at addysgu yn eu dosbarthiadau eu hunain cyn rhoi strategaethau llwyddiannus ar waith fel ysgol gyfan. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda'i hysgolion partner i sicrhau gwelliant. Mae arweinwyr yn cydweithio i sicrhau bod dealltwriaeth dda o ddilyniant yn y meysydd dysgu, sy'n galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd da.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2025